| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 14 Mai 2024 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Eifion Williams | Emyr Gareth | |
| Llŷr Evans | Daniel Williams | |
| Cynog Prys | Meleri Jones | |
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Eifion Williams. Roedd y Gymuned wedi ei syfrdanu gyda marwolaeth gwraig Rheolwr Clwb Pêl droed Merched y Felinheli a hefyd Rheolwr Tîm cyntaf Clwb Pêl droed y Felinheli sef Euron Davies. Fel arwydd o barch fe gafwyd munud o dawelwch. Y Clerc i anfon gair o gydymdeimlad a'r teuluoedd yn eu profedigaeth. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elen Gwenllïan, Nel Huws, Eleri Wyn Thomas, Elenid Glyn a Dafydd Huws. | |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Ebrill 2024 - derbyniwyd. | **CLERC** |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill 2024 yn rhai cywir. | **CLERC** |
| **4.2** | Toiledau - dim dilyniant ar y mater, parhau i ddisgwyl derbyn ymateb gan Robinsons. | **CLERC** |
| **4.3** | Cynllun Rheoli Traffig - dim ymateb pellach wedi ei dderbyn gan yr heddlu. Y Clerc i barhau i gysylltu â'r heddlu i sicrhau cael dyddiad ar gyfer cyfarfod, galli'r cyfarfod fod yn un rhithiol os byddai hynny yn well. | **CLERC** |
| **4.4** | Biniau Cae Pêl droed Ffordd Lan y Môr a ger Safle Moria/Ger y Siop - Dim dilyniant. | |
| **4.5** | Materion Priffyrdd - Rhes Gwelfor - dim dilyniant. | **CLERC** |
| **4.6** | Logo - fe gyflwynwyd copi caled o'r logo a dylinwyd gan ddisgybl rhai blynyddoedd yn ôl. Bwriad y logo fydd i ennyn diddordeb y cyhoedd yn y cyngor ac i ymgysylltu a'r gymuned. Penderfynwyd bod angen Logo a newydd a phenderfynwyd cynnal cystadleuaeth ar gyfer dylunio Logo newydd. Y Gystadleuaeth i fod yn agored i blant Ysgol Cynradd y Felinheli. Byddai'r goreuon yn cael eu harddangos yn Gŵyl y Felin er mwyn i bobl y pentref gael pleidleisio ar yr un maent yn eu hoffi. Bydd Gwobr yn cael i roi i'r enillydd a dosbarth ysgol yr enillydd. Y Clerc i gysylltu â'r ysgol. | **CLERC** |
| **4.8** | Nid oes ymateb wedi dod ynglŷn â'r jetty/slipway. Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle ynglŷn â'r slipway sydd ym mherchnogaeth Gyngor Gwynedd ac ail anfon e-bost ynglŷn â'r i'r dirywiad i'r jetty gyferbyn a'r garddfon. | **CLERC** |
| **4.9** | Gwaith wedi ei gwblhau ar Lwybr 16 gydag wyneb concrid. Bydd canllaw yn cael ei roi ar y safle yn fuan. | |
| **4.10** | Golau Stryd Pen Ceunant - dim dilyniant hyd yma. | |

| | | |
|---|---|---|
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **5.1** | Rhif Cais: C24/0294/20/CC Lleoliad: 2 Ffordd Glyder, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QX Bwriad: Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed - DIM GWRTHWYNEBIAD | |
| **5.2** | Rhif Cais: C24/0315/20/LL Lleoliad: Cyngor Chwaraeon Cymru, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai, Llanfair Is Gaer, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1TS Bwriad : Amnewid y rhaffau uchel presennol gyda chwrs rhaffau uchel newydd a gosodiad ogof antur. **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| | Trefniadau mewn lle i gontractwr lleol wneud gwaith cynnal dros yr haf ar Safle Moreia | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **8.1** | Gweler eitem 4.9 | **CLERC** |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Cafwyd adroddiad am digarboneiddio gan y Cynghorydd Daniel Williams. Roedd ganddo weledigaeth ar gyfer y Neuadd a’r brwdfrydedd i wneud prosiect digarboneiddio ar y Neuadd. Mae adroddiad wedi ei dderbyn a bydd y Cynghorydd yn trafod yr adroddiad gyda’r awdur a hefyd yn edrych ar egni sydd yn cael ei ddefnyddio gan y neuadd cyn ei fod yn rhoi argymhellion o flaen y Cyngor. Mae gwaith tebyg wedi ei wneud yn Llanfair Pwll a bydd yn edrych i weld oes modd ymweld â’r neuadd yno i weld y gwaith sydd wedi ei wneud. | DW |
| **9.2** | Mae ffenestri'r neuadd wedi eu glanhau oddi allan, bydd angen trefnu i lanhau hwy ar y tu fewn pan fydd y neuadd ddim mewn defnydd. Mae’r draen wedi ei chlirio a’r mwsogl wedi ei lanhau i ffwrdd. | |
| **9.3** | Mae voiles newydd wedi eu prynu ar gyfer priodasau sydd yn cael eu cynnal yn y neuadd. | |
| **9.4** | Mae Badminton wedi talu am rentu’r Neuadd am y flwyddyn sydd wedi bod. Credir bod y tymor wedi dod i ben. | |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Mae angen gwneud adroddiad cyfredol ar y gwardeiniaid. | |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.10 yn y r hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad: 11/6/24** |